

**2013 Rhif 2906 (Cy. 284)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r  
A479 (Llys-wen, Powys) (Terfyn  
Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2013**

*Gwnaed* 14 Tachwedd 2013

*Yn dod i rym* 20 Tachwedd 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a Chefnffordd Parc Glan-wysg – Llys-wen (yr A479) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A479 (Llys-wen, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2013.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw:

i. y darn o gefnffordd yr A470 yn Llys-wen yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 218 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r A479 am bellter o 840 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ac yna i'r gogledd-orllewin;

ii. y darn o gefnffordd yr A479 yn Llys-wen yn Sir Powys sy'n ymestyn am 365 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain o'i chyffordd â'r A470.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Tachwedd 2013

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.